


POLISI CODI TÂL

Charging Policy

Ysgol Godre'r Berwyn



Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr: _____

Signed on behalf of the Chair of Governors:

Dyddiad Cymeradwyo:

Date of approval

Dyddiad Adolygu:

Review date

1. Rhagymadrodd

Nid yw'r disgylion yn talu am yr addysg rydym yn ei ddarparu yn ystod oriau ysgol arferol. Nid ydym yn codi tâl am unrhyw weithgaredd sy'n rhan o'r cwricwlwm, ac eithrio rhywfaint o hyfforddiant cerddoriaeth ar gyfer rhai unigolion neu grwpiau bychain.

2. Cyfraniadau gwirfoddol

Pan gaiff gwibdeithiau neu ymweliadau ysgol er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm a phrofiad addysgol y plant eu trefnu, mae'r ysgol yn gwahodd rhieni a gwarcheidwaid gyfrannu tuag at y gôst. Mae pob cyfraniad yn wirfoddol. Os nad ydym yn derbyn cyfraniadau gwirfoddol digonol, efallai y byddwn yn gorfol gohirio'r wibdaith. Os cynhelir y wibdaith, gall fod plant nad yw eu rhieni neu warcheidwaid wedi cyfrannu, barhau i fynd y wibdaith honno. Nid ydym yn trîn y plant hynny'n wahanol i'r gweddill.

Os yw rhiant yn dymuno i'w blentyn ef/hi fynd ar wibdaith ysgol neu gymryd rhan mewn digwyddiad, ond yn amharod i neu heb allu gwneud cyfraniad gwirfoddol, rydym yn caniatáu'r plentyn gymryd rhan lawn yn y wibdaith neu weithgaredd. Weithiau, mae'r ysgol yn talu costau ychwanegol er mwyn cefnogi'r ymweliad. Mae gan rieni a gwarcheidwaid hawl i wybod sut caiff pob gwibdaith ei chyllido, a rhydd yr ysgol y wybodaeth hon, ar gais rhieni/gwarcheidwaid.

Os oes unrhyw riant yn ei chael yn anodd talu, fe'i gwahoddir i weld y Pennaeth ac fe wneir trefniadau eraill i oresgyn y broblem. Ni eithrir unrhyw blentyn o'r gweithgareddau ar sail anallu neu amharodrwydd i gyfrannu'n wirfoddol.

Rhestrir isod weithgareddau ychwanegol, wedi eu trefnu gan yr ysgol, ble mae'n ofynnol cael cyfraniadau gwirfoddol gan rieni a gwarcheidwaid. Gelwir y gweithgareddau hyn yn 'bethau ychwanegol dewisol'. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr:

- ymweliadau ag amgueddfeydd;
- gweithgareddau chwaraeon ble mae angen treuliau cludiant;
- gweithgareddau antur awyr agored;
- ymweliadau â neu gan gwmni theatr;
- digwyddiadau cerddorol.

3. Ymweliadau preswyl

Os yw'r ysgol yn trefnu ymweliad preswyl yn ystod oriau ysgol, neu'n bennaf yn ystod oriau ysgol, ble darperir addysg sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r cwricwlwm, nid ydym yn codi tâl am y treuliau addysg neu dreuliau teithio. Fodd bynnag, rydym yn gofyn am dâl i gwrdd â chostau bwyd a llety. Os na allwn godi arian digonol trwy'r cyfraniadau gwirfoddol hyn, efallai bydd yn rhaid gohirio'r ymweliad, ac y byddai'n rhaid ymdrin â'r agwedd honno o'r cwricwlwm trwy ddulliau eraill.

4 . Dysgu Cerddoriaeth

Mae pob plentyn yn astudio cerddoriaeth fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol. Nid ydym yn codi tâl am hyn.

Codir tâl am hyfforddiant cerddoriaeth unigol neu ar gyfer grŵp bychan, gan fod hwn yn weithgaredd cwricwlwm ychwanegol, ac nid yw'n rhan o'r cwricwlwm. Caiff y gwersi hyn ar gyfer unigolion neu grŵp bychan eu dysgu gan athrawon cerdd teithiol. Rhoddwon wybodaeth i rieni a gwarcheidwaid ynghylch hyfforddiant cerddoriaeth ychwanegol ar ddechrau pob blwyddyn ysgol.

5. Nofio

Mae'r ysgol yn trefnu gwersinofio ar gyfer pob plentyn yng Nghyfnod Allweddol 2. Cynhelir y rhain yn ystod oriau ysgol ac maent yn rhan o'r cwricwlwm. Nid ydym yn codi tâl am y gweithgaredd hwn, ond gofynnwn am gyfraniad gwirfoddol gan rieni a gwarcheidwaid i dalu am gludiant. Rydym yn hysbysu'r rhieni a'r

gwarcheidwaid pan gynhelir y gwensi hyn, a gofynnwn am ganiatâd ysgrifenedig rhieni neu warcheidwaid i'w plant gymryd rhan.

6. Arholiadau

Telir ffioedd cofrestriadau arholiadau TGAU gan y ganolfan.

Telir ffioedd cofrestriadau hwyr neu ddiwygio gan y meisydd dysgu.

Ni chodir tâl ar ymgeiswyr nac adrannau am newid haen, tynnu'n ôl a wneir drwy'r gweithdrefnau priodol na newidiadau sy'n codi o'r prosesau gweinyddol, ar yr amod y gwneir y rhain o fewn yr amser a ganiateir gan y cyrff dyfarnu.

Ceisir ad-daliad gan ymgeiswyr sy'n methu sefyll arholiad neu fodloni'r gofynion angenrheidiol ar gyfer gwaith cwrs / asesiadau di-arholiad.

Mae'r ganolfan yn talu'r ffioedd am ailsefyll arholiadau y tro cyntaf ac yr ymgeiswyr ar gyfer unrhyw droeon yn dilyn hynny.

Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr dalu'r ffi am ymholiad yngylch canlyniad os na fydd y ganolfan yn cadarnhau'r ymholiad a bod yr ymgeisydd yn mynnu parhau â'r ymholiad.

7. Monitro ac adolygu

Dirprwyir i'r penneth yr hawl i benderfynu i ba raddau, os o gwbl, y defnyddir arian allan o gronfa'r ysgol neu ffynhonnell arall i dalu cyfran o gôst y gweithgareddau.

Dirprwyir i'r penneth yr hawl i benderfynu ar achosion sy'n codi wrth weithredu'r polisi hwn.

Caiff y polisi hwn ei fonitro gan y corff llywodraethol, a chaiff ei adolygu bob dwy flynedd, neu'n amlach na hynny os oes angen.

1. Introduction

Pupils do not pay for the education we provide during usual school hours. We do not charge for any activity that is part of the curriculum, except for some music training for some individuals or small groups.

2. Voluntary Contributions

When school excursions or visits are organised to enrich the curriculum and the children's educational experience, the school invites parents and guardians to contribute towards the cost. Every contribution is voluntary. If we do not receive sufficient voluntary contributions, we may need to cancel the excursion. If the excursion takes place, then children of parents who have not contributed, may continue to go on that excursion. We do not treat those children any differently to the others.

If a parent wishes his/her child to go on a school excursion or participate in an event, but is unwilling or unable to make a voluntary contribution, we do allow the child to participate fully in the excursion or event. Sometimes, the school pays the additional costs in order to support the visit. Parents and guardians have the right to know how each excursion is funded, and the school will give out this information at the parents/guardians' request.

If any parent finds it difficult to pay, they will be invited to see the Head Teacher and other arrangements will be made to overcome the issue. No child is excluded from the activities on the grounds of an inability or unwillingness to contribute voluntarily.

Listed below are additional activities, organised by the school, where it is necessary to get voluntary contributions from parents and guardians. These activities are called 'additional optional activities'. The list is not exhaustive:

- visits to museums;
- sports activities where there are travelling expenses;
- outdoor adventure activities;
- visits to or by a theatre company;
- musical events.

3. Residential visits

If a school organises a residential visit during school hours, or mainly during school hours, where education is provided that is directly linked to the National Curriculum, we do not charge for the education or travel expenses. However, we do request a payment to meet with food and accommodation costs. If we cannot raise sufficient funds through these voluntary contributions, then we may have to cancel the visit, and we would have to deal with this aspect of the curriculum through other means.

4. Music Teaching

Every child studies music as part of the school's usual curriculum. We do not charge for this.

A charge is levied for individual music training or for a small group, as this is an extra-curricular activity, and not part of the curriculum. These lessons for individuals or a small group are taught by peripatetic music teachers. We give parents and guardians information regarding additional music training at the beginning of every school year.

5. Swimming

The school organises swimming lessons for every child in Key Stage 2. These take place during school hours and are part of the curriculum. We do not charge for this activity, however, we do ask for a voluntary contribution from parents and guardians to pay for transport. We inform parents and guardians when these lessons take place, and ask for the written permission of the parent/guardian for their children to take part.

6. Examinations

GCSE exam registration fees are paid by the centre.

Fees for late or amendment registrations are paid by the areas of learning.

No charge will be made to applicants or departments for a change of tier, withdrawal made through the appropriate procedures or changes arising from the administrative processes, provided these are made within the time allowed by the bodies adjudication.

A refund will be sought from candidates who fail to sit an exam or meet the necessary requirements for coursework / non-exam assessments.

The centre pays the fees for re-sit exams the first time and the candidates for any subsequent times.

Applicants must pay the fee for an inquiry regarding a result if the centre does not confirm the inquiry and the applicant insists on continuing with the inquiry.

7. Monitoring and Reviewing

The right to determine to what extent, if at all, funding from the school's fund or other sources is used to pay for part of the cost of activities is delegated to the Headteacher.

The right to determine the cases that arise when implementing this policy is delegated to the Headteacher.

This policy is monitored by the governing body and will be reviewed every two years, or more frequently if necessary.